



**Funded by
UK Government**

**Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU**

Rhondda Cynon Taf

**Grant Gwella Eiddo ar Raddfa Fawr
Y Gronfa Ffyniant Gyffredin**

Canllawiau i ymgeiswyr

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gadw'ch gwybodaeth bersonol yn ddiogel a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ynglŷn â sut rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth. Am ragor o wybodaeth darllenwch yr [Hysbysiad Preifatrwydd](#).



WEDI'I YRRU GAN
**FFYNIANT
— BRO —**

POWERED BY
**LEVELLING
— UP —**

Rhestr Termâu

Yn y pecyn cais, mae nifer o dermau'n cael eu defnyddio. Mae'r rhestr termâu isod yn rhoi diffiniad ar gyfer rhai o'r termâu sy'n cael eu defnyddio:

Swm wrth gefn - Mae swm wrth gefn yn swm o arian sy'n cael ei ganiatáu yng nghyllideb y prosiect, ar gyfer gwariant ar agweddau ar y prosiect nad oedd modd eu rhagweld adeg paratoi'r dogfennau.

Menter - Mae hyn yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i, unrhyw endid sy'n cyflawni gweithrediadau economaidd, waeth beth yw eu ffurf gyfreithiol. Mae hyn yn cynnwys unigolion hunangyflogedig a phartneriaethau neu gymdeithasau sy'n ymwneud yn rheolaidd â gweithrediadau economaidd.

Menter fawr - Unrhyw fenter nad yw'n fenter fach na chanolig.

Menter ganolig - Cyflogi llai na 250 o bobl a chanddi naill ai drosiant blynyddol nad yw'n fwy na €50 miliwn, neu fantolen flynyddol nad yw'n fwy na €43 miliwn.

Menter fach - Cyflogi llai na 50 o unigolion ac sydd â throsiant blynyddol neu fantolen flynyddol nad yw'n fwy na €10 miliwn.

Menter feicro - Cyflogi llai na 10 o unigolion ac sydd â throsiant blynyddol neu fantolen flynyddol nad yw'n fwy na €2 miliwn.

Menter newydd - Bydd mentrau newydd yn llai na 12 mis oed ac yn diwallu meini prawf **Menter Cymwys**, ond rhaid cyflawni'r incwm perthnasol i fodloni'r trothwy cyflogaeth lleiaf o fewn y 3 mis cyntaf.

Prosiect - Cwmpas arfaethedig y gwaith mewn perthynas â phrynu offer, gwaith adeiladu neu unrhyw wasanaeth arall mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais amdano.

Eiddo masnachol - Eiddo gyda gwerth masnachol sydd wedi'i gofrestru i fod yn atebol i gyfraddau busnes yn hytrach na chyfraddau preswyl.

Cymeradwyo grant - Dyma fydd canlyniad cais llwyddiannus. Bydd Llythyr Cynnig Grant yn cynnwys cynnig grant ariannol yn seiliedig ar y dyfynbrisiau/tendrau isaf wedi'u cyflwyno gan yr ymgeisydd ar gyfer y prosiect.

Gwaith adeiladu - Gall hyn gynnwys unrhyw waith sy'n ymwneud â gweithwyr adeiladu proffesiynol boed hynny'n waith allanol neu fewnol. O dro i dro bydd y gwaith yma'n galw am ganiatâd cynllunio neu reoliadau adeiladu. Fydd prosiectau ddim yn cael eu cymeradwyo pan fo'r ymgeisydd yn bwriadu cynnal gwaith adeiladu ei hun.

Amrywiad - Dyma newid i gwmpas y gwaith mewn contract adeiladu ar ffurf ychwanegiad, amnewidiad neu hepgoriad o gwmpas gwreiddiol y gwaith.

Cyfyngiad Dyma gyfyngiad cyfreithiol a roddir ar y rhydd-ddaliad / les-ddaliad a fydd yn rhoi gwybod i'r Cyngor am unrhyw fwiad i werthu neu drosglwyddo'r eiddo. Mae hwn gyda'r Gofrestrfa Tir

Pridiant/Arwystl Cyfreithiol – Dyma bridiant neu arwystl a roddir ar y rhydd-ddaliad am gyfnod o 5 mlynedd sy'n atal y gwerthiant neu'r trosglwyddiad oni bai bod y Cyngor yn awdurdodi hynny. Os yw'r

ymgeisydd yn gwmni, yna byddai'r arwystl hefyd yn cael ei osod gyda Thŷ'r Cwmnïau ar gost i'r ymgeisydd. Cost cofrestru pridiant cyfreithiol yn Nhŷ'r Cwmnïau yw £23.00 ar hyn o bryd

Tystiolaeth Tâl - Tystiolaeth fod arian wedi cael ei dalu am y cynnyrch / gwasanaethau sydd wedi'u cytuno'n unol â chymeradwyaeth grant (Fel arfer cyfriflen sy'n dangos taliadau).

1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r Grant Gwella Eiddo ar Raddfa Fawr yn gyfle i ymgeiswyr wneud cais am gyllid (yn amodol ar gynllunio) i wneud y canlynol:

- Cynnal gwaith mewn adeiladau ag arwynebedd llawr gwag yng nghanol trefi allweddol a lleoliadau strategol eraill ble mae masnachu yn methu. Mae gwaith cymwys yn cynnwys gwaith adeiladu angenrheidiol i gyflawni amcan y prosiect, a rhaid cytuno ar hyn â'r Cyngor cyn gwneud cais.

2. Gwaith

Mae'r wybodaeth ganlynol yn cynnwys enghreifftiau o'r math o waith y byddai modd ei gefnogi. Bydd pob cynllun yn cael ei asesu gan swyddogion fesul achos i bennu gwaith cymwys.

Preswyl:

- Y gofyniad lleiaf ar gyfer pob prosiect yw fflat hunangynhwysol gydag ystafell wely 1 x 1. Mae gwariant cymwys yn cynnwys gwaith sy'n cael ei ystyried i fod yn angenrheidiol i greu llety preswyl newydd.
- Dylai prosiectau gydymffurfio â'r arwynebedd llawr lleiaf sy'n cael ei argymhell yn y Safonau Ansawdd Tai Cymru diweddaraf.

[Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021 \(llyw.cymru\)](http://llyw.cymru)

- Dydy llety myfyrwyr, fflatiau un ystafell a fflatiau stiwdio ddim yn gymwys i dderbyn cyllid grant.

Masnachol - allanol

- Blaen y siopau
- Arwyddion
- Ffenestri a drysau
- Goleuadau allanol
- Toeon a simneiau
- Nwyddau dŵr glaw (cwteri a phibellau)
- Rendro, glanhau ac atgyweirio cerrig, ail-bwyntio
- Gwaith strwythurol

Masnachol - mewnl

- Ffenestri a drysau
- Hygyrchedd gwell
- Waliau, toeon a goleuo
- Mesurau effeithlonrwydd ynni sy'n rhan o'r cynllun
- Cyfleustodau a gwasanaethau, gan gynnwys gwresogi
- Cawodydd a chyfleusterau hylendid
- Cyfleusterau storio beiciau
- Cyfleusterau lles (e.e. cyfleusterau ystafell ymolchi a glanhau hanfodol yn unig)
- Gwaith strwythurol

Mae gwariant anghymwys yn cynnwys:

- Costau gwaith cynnal a chadw cyffredinol
- Mathau penodol o ffitiadau a gosodiadau- rhaid i'r Cyngor benderfynu ar gymhwysedd
- Ffioedd cyfreithiol a chyfrifyddu
- Taliadau arian parod a chardiau credyd i asiantau/contractwyr
- Gwaith sy'n cael ei wneud cyn cynnig grant (oni bai ei fod wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor yn ysgrifenedig)
- Unrhyw anfonebau wedi'u talu gydag arian parod/cardiau credyd

3. Y Grant

- 3.1. Fel arfer, dim ond i fentrau meicro, bach a chanolig y mae'r grant ar gael. Byddai menter fawr ei maint dim ond yn gymwys pe bai'r eiddo yn cael effaith negyddol ar y treflun ym marn y Cyngor.
- 3.2. Mae pob grant yn destun disgrisiwn y Cyngor ac yn amodol ar argaeledd o fewn y gyllideb.
- 3.3. Bydd y grant, fel arfer, ar gael ar gyfer hyd isafswm gwerth hyd at 50% o gostau cymwys rhesymol, hyd at uchafswm o £250,000.
- 3.4. Mae'r grant ar gael i lenwi unrhyw ddiffyg sydd yn eich cyllid e.e. i ariannu eich opsiynau olaf. Rhaid i ymgeiswyr arddangos faint o'u harian a benthyciadau eu hun mae modd eu defnyddio ar gyfer y prosiect a nodi pam nad oes modd iddyn nhw leihau'r diffyg yn y gyllideb.
- 3.5. Bydd grantiau'n cael eu dyfarnu fel arfer heb gynnwys Treth ar Werth. Os na fydd modd i'r ymgeisydd adennill Treth ar Werth, gall hyn gael ei dderbyn yn gost gymwys yn ôl disgrisiwn y Cyngor. Bydd hyn yn amodol ar yr ymgeisydd yn ad-dalu unrhyw elfen Treth ar Werth i'r Cyngor y bydd modd ei adennill, yn ddiweddarach, gan Gyllid a Thollau ei Mawrhydi yn sgil newid yn statws Treth ar Werth yr ymgeisydd. Dydy'r uchafswm o ddyfarniad grant gwerth £250,000 ddim yn cael ei effeithio.
- 3.6. Llywodraeth y DU sy'n darparu'n gronfa a bydd yn dilyn rhaglen sefydlog sydd â chyfyngiad amser.
- 3.7. Bydd modd i ymgeiswyr gyflyno ceisiadau o 3 Ebrill 2023 ymlaen.

- 3.8. Bydd pob grant cymeradwy yn derbyn rhaglen waith ac yn cytuno ar raglen daliadau ar gyfer hyd cyfnod y prosiect.
- 3.9. Mae modd talu'r Grant mewn rhandaliadau cytunedig o gyflwyno anfonebau, tystysgrifau interim, tystiolaeth o dalu ac ati.
- 3.10. Bydd isafswm o 10% o gyfanswm y grant yn cael ei ddal yn ôl (Cadw) nes bod y Cyngor yn fodlon bod yr holl waith wedi'i gwblhau i'r safon ofynnol ym marn Syrfëwr Meintiau annibynnol, a bod copi o'r dystysgrif cwblhau ymarferol wedi ei dderbyn.
- 3.11. Fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf **ddim** yn gosod ffiniau'r rhaglen a bydd cyfle cyfyngedig i ymestyn grantiau tu hwnt i'r dyddiadau cwblhau.
- 3.12. Mae'r Dyddiad Cwblhau Prosiect sydd wedi nodi yn y ffurflen gais yn fras amcan o bryd fydd y prosiect wedi'i gwblhau a bydd yn ystyried unrhyw amodau a chaniatâd sydd eu hangen. Dylai'r Dyddiad Cwblhau gael ei ystyried yn ofalus a bod yn realistig. (Bydd cyfle i adolygu'r Dyddiad Cwblhau yn hwyrach yn y broses ymgeisio).
- 3.13. Does dim sicrwydd y bydd pob cais yn llwyddiannus. Caiff cynigion eu hasesu ar sail y cyntaf i'r felin, yn ddibynnol ar gymhwysedd a'r cyllid sy'n weddill.
- 3.14. Ein nod yw cynorthwyo cymaint o fusnesau â phosibl. Oherwydd y galw mawr am y Gronfa yma a chyllideb gyfyngedig, rydyn ni'n cadw'r hawl i beidio â gwahodd ceisiadau sydd wedi'u hailgyflwyno.
- 3.15. Bydd rhaid cytuno ymlaen llaw â'r Cyngor ar unrhyw amrywiaethau i'r gwaith cymeradwy.

4. Ymgeiswyr cymwys

- 4.1. Mae modd i Rydd-ddeiliaid / Perchnogion Eiddo, Masnachwyr Unigol, Partneriaethau, Cwmnïau Cyfyngedig, Busnesau Cymunedol, Cwmnïau Cydweithredol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wneud cais yn y rhaglen.
- 4.2. Bydd grantiau dim ond ar gael i berchnogion eiddo rhydd-ddaliad neu i denantiaid â phrydles sydd o leiaf bum mlynedd o hyd pan fydd cais dilys yn dod i law. Yn achos deiliaid prydlesau, bydd raid i ymgeiswyr gyflwyno llythyr sy'n caniatáu'r gwaith arfaethedig oddi wrth y rhydd-ddeiliad a chopi o'r cytundeb prydles.

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod holl ofynion perchnogaeth tir yn eu lle i weithredu'r cynllun.

5. Asiantau

- 5.1. Rhaid defnyddio asiantau proffesiynol annibynnol (Asiant/Pensaer/Syrfëwr) i gydlynu/rheoli **prosiectau o'r dechrau i'r diwedd**. Mae ffioedd asiantau yn wariant cymwys sy'n destun disgrisiwn y Cyngor.

- 5.2. Gall ffioedd asiantau gynnwys y gwasanaethau canlynol:-
- Darparu darluniau
 - Paratoi biliau meintiau penodol
 - Trefnu
 - Tendro
 - Sicrhau caniatâd
 - Goruchwylio safleoedd / rheoli contractwyr
 - Cyflenwi anfonebau
 - Gwasanaethau eraill, er enghraifft, peirianwyr strwythurol
 - Rheoli'r prosiect o ddydd i ddydd
 - Cyflwyno hawliadau grant - manylion wedi'u nodi ar y ffurflenni gwerthuso
- 5.3. Bydd asiantau yn paratoi *Dogfen Prisiau Tendrau* fanwl i gynnwys bil o feintiau wedi'u rhestru yn amlinellu **pob** agwedd ar waith a manylebau (h.y. mesuriadau, deunyddiau a chreffftwaith).
- 5.4. Bydd raid i asiantau beidio â gwneud taliadau i unrhyw gontractwr ar ran yr ymgeisydd.
- 5.5. Gall ffioedd asiantau gynnwys costau wedi eu codi o fewn cyfnod rhesymol cyn cymeradwyo'r grant; ond, bydd yr ymgeisydd yn mynd i unrhyw gostau ar ei fenter ei hun cyn cymeradwyo'r grant. Os na fydd grant yn cael ei roi i'r prosiect, neu os na fydd y prosiect yn cydymffurfio â Thelerau ac Amodau'r grant, fydd y costau yma ddim yn gymwys.
- 5.6. Dylai Asiantau fod yn gymwys yn broffesiynol; dylai penseiri fod yn aelodau o Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain ('RIBA') neu Gorfforiad Brenhinol Penseiri yr Alban ('RIAS'), a bydd syrfewyr siartredig yn aelodau o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig ('RICS') ac yn meddu ar lefel briodol o ddealltwriaeth a phrofiad arbenigol ac Yswiriant Indemniad Proffesiynol dilys. Dylai unrhyw Asiantau eraill fod yn aelodau o gyrff priodol, er enghraifft, Sefydliad Adeiladu Siartredig ('CIOB'). Bydd rhaid dangos tystiolaeth o aelodaeth ar ddechrau'r broses neu bydd rhaid cytuno â'r Cyngor ar unrhyw amrywiaeth o'r gofynion yma ymlaen llaw.
- 5.7. Os yw'r eiddo yn adeilad rhestredig, rhaid i'r Asiant allu dangos profiad o weithio ar brosiectau treftadaeth/cadwraeth.
- 5.8. Pan mae'r eiddo yn adeilad rhestredig, rhaid i'r pensaer allu dangos profiad o weithio ar brosiectau treftadaeth/cadwraeth, megis statws pensaer cadwraeth RIBA arbenigol neu bensaer cadwriaeth.
- 5.9. Bydd rhaid i'r asiant ddarparu adroddiad terfynol yn cynnwys yr holl waith sydd wedi cael ei gynnal.
- 5.10 Gall y grant gyfrannu at ffi yr asiant hyd at isafswm o 10% o gostau'r prosiect ar gyfer asiantau cymwys RICS/RIBA/RIAS/CIOB. Byddai ffioedd asiantau o ran costau rhesymol y gwaith diffiniedig yn cael eu cyfrifo fel a ganlyn, er enghraifft: Costau cymwys y gwaith = £50,000, Ffioedd asiantau (hyd at 10%) = £5,000 = Grant o £3,500.

Nodwch: Os na fydd modd i Asiant arddangos sgiliau a phrofiad gofynnol, bydd hawl gan y Cyngor i fynnu bod Asiant arall yn cael ei ddefnyddio.

6. Cyflwyno Cais

6.1 CAM UN - Mynegiant o Ddiddordeb

- Llenwch ffurflen Mynegiant o Ddiddordeb a'i hanfon i Adfywio@rctcbc.gov.uk.

- Sylwch nad yw cyflwyno ffurflen Mynegiant o Ddiddordeb yn golygu y cewch chi eich gwahodd i gyflwyno cais, neu y bydd unrhyw gais dilynol yn llwyddiannus.

6.2 CAM DAU – Cais Cyflawn

Yn rhan o'r broses ymgeisio, bydd angen cyflwyno'r dogfennau ategol canlynol gyda'r ffurflen gais:

Rhaid i asiantau gynorthwyo yn y broses ymgeisio.

Yn rhan o'r broses ymgeisio, bydd angen cyflwyno'r dogfennau ategol canlynol gyda'r ffurflen gais:

- Bil meintiau eitemedig (rhaid cynnwys mesuriadau, deunyddiau a saernïaeth)
- Gwerth y gwaith rhwng £15,000 a £75,000: 3 gwahoddiad i dendro
- Gwerth y gwaith dros £75,000: 4 gwahoddiad i dendro
- Adroddiad Tendro
- Bydd raid dangos tystiolaeth achredu i Rhentu Doeth Cymru
- 2 gopi o luniadau i raddfa (graddfa 1:50, o leiaf) sy'n dangos yr adeilad presennol a'r gwaith arfaethedig. (Mae'n bosibl y bydd angen lluniadau i raddfa 1:5 – 1:10 ar gyfer manylion penodol). Dylai'r rhain gael eu paratoi gan weithiwr proffesiynol â chymwysterau priodol
- Ffotograffau diweddar o'r eiddo
- Copïau o bob caniatâd statudol perthnasol
- Copi o'r dystiolaeth o yswiriant adeiladau
- Llythyr caniatâd gan y rhydd-ddeiliad (yn achos deiliaid prydles)
- Copi o'r brydles a chaniatâd y rhydd-ddeiliad (yn achos deiliad prydles)
- Manylion morgais (ar yr eiddo)
- Manylion benthyciad (ar yr eiddo)
- Tystiolaeth o arian cyfatebol – byddwch cystal â chadarnhau sut rydych chi'n bwriadu ariannu eich cyfraniad i'r prosiect cyfan. Dylai'r cadarnhad fod ar ffurf llythyr oddi wrth y banc neu ddogfen swyddogol arall (bydd angen gwaith papur gwreiddiol), er enghraifft, cyfriflen
- Cyfrifon wedi'u harchwilio'r 3 blynedd ddiwethaf
- Cynllun Busnes
- Adroddiad Arolwg (os yn berthnasol)

Rydyn ni eisiau tynnu eich sylw at y canlynol:

- Caiff ceisiadau eu hasesu ar ôl cwblhau'r ffurflen gais yn llawn ac ar ôl i bob darn o wybodaeth gael eu darparu.
- Bydd modd gwneud cais am wybodaeth bellach i gefnogi eich cais yn ystod unrhyw gam o'r broses.
- Bydd y Gwasanaethau Ffyniant a Datblygu yn gwahodd ymgeiswyr i gyflwyno cais cyflawn yn ôl eu disgrisiwn. Bydd ymgeiswyr sydd ddim yn cael eu gwahodd i gyflwyno cais cyflawn yn derbyn rheswm dilys dros hynny ac yn cael eu cyfeirio at ganllawiau'r cynllun.

7. Contractwyr

7.1. Efallai y bydd gofyn i gontractwyr sy'n dymuno tendro ddangos tystiolaeth o weithio ar brosiectau tebyg.

7.2. Efallai y bydd angen y geirdaon canlynol:

Fersiwn 1.8 260923

- Geirda proffesiynol (h.y. gan bensaer / syrfêwr siartredig)
- Geirda gan gwsmer

- 7.3. Lle mae gan ymgeiswyr fuddiant mewn cwmnïau sy'n dymuno tendro am y gwaith, bydd hyn yn cael ei ganiatáu, ond yn gyfyngedig i **uchafswm** o un cwmni fesul prosiect.
- 7.4. Mae'n bosibl y bydd ymgeiswyr, neu unigolion sy'n gysylltiedig â nhw (er enghraifft, perthnasau, partneriaid busnes neu ffrindiau), yn dymuno cyflwyno tendr am gontract sy'n cael ei gynnig gan yr ymgeisydd. Dydy hyn ddim yn annerbyniol, ond, bydd raid datgan perthnasau o'r fath a bydd raid i'r ymgeisydd sicrhau ei fod yn cynnal y trafodyn mewn ffordd agored a thryloyw. Bydd raid i'r amcanbrisiau/tendrau gael eu rhoi gan gwmnïau masnachu cofrestredig.
- 7.5. Cyn tendro, rhaid i ddarpar gontractwyr gynnal ymweliad gorfodol â'r safle i ganfod natur y safle, mynediad ac amodau a chyfyngiadau lleol sy'n debygol o effeithio ar weithrediad y gwaith.
- 7.6. Rhaid i gontractwyr brisio **pob** eitem ar y bil o feintiau.
- 7.7. Rhaid i'r prif gontractwr gyflwyno Rhaglen Waith fanwl (ar MS Project neu raglen debyg) cyn i'r gwaith ddechrau ar y safle. Caiff y rhaglen ei diweddarau'r rhaglen yn unol â hynny.
- 7.8. Bydd hi hefyd yn ofynnol i bob contractwr gyflwyno copi o'i Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus cyfredol (isafswm £7.5 miliwn) ac Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr (isafswm £7.5 miliwn), oni bai fod y Cyngor yn cytuno'n wahanol yn ysgrifenedig.
- 7.9. Cyfrifoldeb yr Asiant yw rheoli contractwyr oni bai fod y Cyngor yn cytuno'n wahanol mewn ysgrifen.

Nodwch: Os na fydd modd i Gontractwr arddangos sgiliau a phrofiad gofynnol, bydd hawl gan y Cyngor i fynnu bod Contractwr arall yn cael ei ddefnyddio.

8. Caffael

- 8.1. Wrth gaffael nwyddau neu wasanaethau, dylai Asiantau geisio sicrhau gwerth am arian a chynnig cyfle i amrywiaeth o fusnesau ddarparu'r nwyddau neu'r gwasanaethau hynny mewn ffordd deg a thryloyw. Dylai Asiantau sicrhau bod contractwyr yn meddu ar drwyddedau/gymwysterau priodol. Bydd raid i Asiantau, felly, sicrhau bod y gweithdrefnau caffael canlynol yn cael eu mabwysiadu yn unol ag amcangyfrif o uchafswm gwerth y contract adeg rhoi amcanbris / cyn tendro.
- 8.2. Bydd raid i ymgeiswyr wahodd isafswm o'r dyfynbrisiau/tendrau canlynol yn rhan o'r broses ymgeisio:
- 8.3.

Amcangyfrifwyd Gwerth y gwaith	Amcanbris/tendr – camau sy'n ofynnol
£15,000 - £75,000	3 gwahoddiad i dendro
£75,000 +	4 gwahoddiad i dendro

- 8.4. Bydd y Cyngor yn defnyddio ei system dendro electronig (<https://etenderwales.bravosolution.co.uk>) i anfon tendrau i gontractwyr. Bydd contractwyr yn

cyflwyno'r tendrau drwy system edendrocymru erbyn y dyddiad cau. Bydd hi hefyd yn ofynnol i bob contractwr gyflwyno copi o'i Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus gyfredol (isafswm £7.5 miliwn) ac Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr (isafswm £7.5 miliwn).

- 8.5. Ar ddyddiad wedi'i bennu ar ôl dyddiad cau ceisiadau tendro, bydd y Cyngor yn darparu copïau o'r holl dendrau mae wedi'u derbyn, yn dilysu cywirdeb y tendrau ac yn rhoi cyfle i'r asiant benderfynu parhau â'r cais neu beidio.

Bydd y tendr isaf yn cael ei ffafrio yn rhan o gymeradwyo grant. Mewn achosion pan nad oes modd i'r contractwr â'r tendr isaf ymgymryd â'r gwaith, mae modd ystyried y contractwr nesaf. Bydd rhaid dangos tystiolaeth i brofi nad oes modd i'r contractwr isaf gynnal y gwaith e.e. llythyr gan y contractwr yn cadarnhau nad oes modd iddo gynnal y gwaith o fewn yr amserlen berthnasol.

- 8.6. Bydd amcanbrisiau a thendrau yn cael eu hasesu'n allanol gan syrfëwr meintiau annibynnol wedi'i benodi gan y Cyngor. Bydd y Cyngor yn pennu cyfanswm y grant a fydd yn cael ei gynnig i bob prosiect, a bydd hyn yn amodol ar adroddiad y syrfëwr meintiau ynglŷn â chostau rhesymol ar gyfer gwaith sy'n gymwys i gael cymorth grant.

9. Allbynnau

- 9.1 Dylai ymgeiswyr nodi y bydd disgwyl i brosiectau gyflawni yn erbyn yr allbwn hwnnw -

Allbwn	Cyfanswm yr adeiladau masnach sy'n cael eu datblygu neu'u gwella (m2)
Diffiniad	<ul style="list-style-type: none"> Nifer metrau sgwâr y gofod adeiladau a gafodd ei greu/adnewyddu ar gyfer defnydd annomestig. Mae ymestyniadau i adeiladau cyfredol yn cael eu hystyried yn arwynebedd llawr newydd. <p>Crëwyd: Adeilad newydd</p> <p>Adnewyddwyd: Adnewyddu adeilad cyfredol</p>
Gofynion Tystiolaeth	Gwaith - tystysgrif o gwblhau'r gwaith ymarferol. Ardystiad Syrfëwr Meintiau o'r gwaith sydd wedi'i wneud, e.e. gwasanaethau/cyfleustodau ac isadeiledd y safle, gosod sylfeini, adeiladu walïau a tho.

Allbwn	Cyfanswm yr eiddo wedi'u hadsefydlu (gwerth rhifiadol)
Diffiniad	<p>Mae eiddo yn golygu adeilad yn ogystal â'r tir ac adeiladau allanol sydd wedi'u difrodi gan ddatblygiad diwydiannol neu ddatblygiad arall ac nad oes modd eu defnyddio heb gynnal gwaith yn gyntaf.</p> <p>Mae adsefydlu yn golygu trwsio fel bod modd eu defnyddio.</p>
Gofynion Tystiolaeth	Gwaith - tystysgrif o gwblhau'r gwaith ymarferol. Ardystiad Syrfëwr Meintiau o'r gwaith sydd wedi'i wneud, e.e. gwasanaethau/cyfleustodau ac isadeiledd y safle, gosod sylfeini, adeiladu walïau a tho.

Allbwn	Cyfanswm y tir wedi'i adsefydlu (m2)
Diffiniad	Cyfanswm y metrau sgwâr o dir diffaith sydd wedi'i adsefydlu.

	Tir diffaith yw tir sydd wedi'i ddifrodi gan ddatblygu diwydiannol neu fath arall ac sydd tu hwnt defnydd heb driniaeth.
Gofynion Tystiolaeth	Cyfeiriadau'r eiddo sydd wedi'u gwella ac ar gael i'w meddiannu.

Allbwn	Cyfanswm yr adeiladau masnachol sydd wedi'u datblygu neu'u gwella (gwerth rhifiadol)
Diffiniad	<p>Mae adeiladau masnachol yn cynnwys ond ddim wedi'u cyfyngu i: adeiladau manwerthu, lletygarwch, swyddfa a diwydiannol.</p> <p>Mae 'wedi'u cwblhau' yn golygu bod y gwaith ar yr adeiladau wedi'i gwblhau a'u bod nhw'n barod i'w meddiannu. Mae adeilad wedi'i gwblhau ar ôl iddo gyrraedd y rhestr ardrethu annomestig.</p> <p>Mae gwella yn golygu ychwanegu, adfywio neu drwsio cyfleusterau er mwyn creu gofod gwell. Dydy hyn ddim yn cynnwys cynnal a chadw cyfleusterau cyfredol.</p>
Gofynion Tystiolaeth	Cyfeiriadau'r eiddo sydd wedi'u gwella ac ar gael i'w meddiannu.

Allbwn	Swyddi a grëwyd o ganlyniad i'r cymorth
Diffiniad	<p>Nifer y swyddi newydd, parhaol, cyflogedig, Cyfwerth Ag Amser Llawn (CALI) a grëwyd yn dilyn cymorth. Mae hyn yn cynnwys swyddi rhan-amser a llawn amser, y dylid eu cofnodi mewn perthynas â swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE). Dylai CALI fod yn seiliedig ar oriau amser llawn safonol y cyflogwr.</p> <p>Diffiniad 'newydd' yw: na ddylai'r swydd wedi bodoli gyda'r cyflogwr hwnnw cyn yr ymyriad.</p> <p>Nid yw swyddi a grëwyd yn cynnwys y rhai a grëwyd i gyflawni'r ymyriad yn unig (e.e. adeiladu).</p> <p>Diffiniad 'parhaol' yw: dylai fod ganddo ddisgwyliad oes o 12 mis o leiaf o'r adeg y caiff ei greu.</p> <p>Dim ond unwaith yn ystod oes prosiect y dylech gyfrif pob CALI unigol neu swydd (h.y. ni ddylid ei gyfrif bob blwyddyn)</p> <p>Mae CALI yn fesur o oriau wedi'u hamserlennu gweithiwr mewn perthynas ag oriau cyflogwr ar gyfer wythnos waith amser llawn</p>
Gofyniad tystiolaeth	<p>Cyflogwr i ddarparu cadarnhad ysgrifenedig bod y swydd wedi'i chreu. Cynhwyswch fanylion y swydd fel y'i hysbysebwyd ac y dechreuodd, hyd, a nifer yr oriau'r wythnos.</p> <p>Cofnodion personél i ddangos cynnydd yn nifer y staff</p> <p>Mae unrhyw ddogfennau eraill sy'n dangos y swyddi a grëwyd yn ymwneud â'r prosiect.</p>

Allbwn	Swyddi a ddiogelir o ganlyniad i gefnogaeth
Diffiniad	<p>Mae swydd a ddiogelir yn swydd barhaol â thâl a oedd mewn perygl cyn i gymorth gael ei ddarparu, ac yr oedd y cymorth wedi helpu'r busnes i'w gadw. Mae hyn yn cynnwys unig fasnachwyr a pherchnogion busnes.</p> <p>Nid yw swyddi a ddiogelir yn cynnwys y rhai a grëwyd i gyflawni'r ymyriad yn unig (e.e., adeiladu).</p>

	<p>Mae hyn yn cynnwys swyddi rhan-amser a llawn amser, y dylid eu cofnodi mewn perthynas â swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE).</p> <ul style="list-style-type: none"> - Dylai CALI fod yn seiliedig ar oriau amser llawn safonol y cyflogwr. - Diffinnir risg fel y rhagwelir ei golli o fewn 6 mis. - Dim ond unwaith yn ystod oes prosiect y dylech gyfrif pob CALI unigol neu swydd (h.y. ni ddylid ei gyfrif bob blwyddyn) - Mae CALI yn fesur o oriau wedi'u hamserlennu gweithiwr mewn perthynas ag oriau cyflogwr ar gyfer wythnos waith amser llawn
Gofyniad tystiolaeth	<p>Data o'r prosiect sydd yn tystio i Swyddi a ddiogelwyd o ganlyniad i gefnogaeth (Nifer cyfwerth ag amser llawn (FTE)).</p> <p>Cyflogwr i ddarparu datganiad bod y swydd mewn perygl yn y chwe mis nesaf</p> <ul style="list-style-type: none"> - gan gynnwys teitl swydd a nifer yr oriau yr wythnos. <p>Cyflogwr i ddarparu cadarnhad ysgrifenedig bod y swydd mewn perygl yn dal mewn bodolaeth 6 mis o ddyddiad terfynol y cymorth.</p>

9.2 Bydd disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus gyflawni'r lefelau sydd wedi'u nodi ar y ffurflen gais. Gall methu â chydymffurfio â hyn arwain at fforffedu'r grant ac atal rhagor o geisiadau. Rydyn ni'n atgoffa ymgeiswyr, felly, i gadw amcangyfrifon i lefelau realistig.

9.3 Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod tystiolaeth o unrhyw ganlyniadau ar gael i'r Cyngor, hyd yn oed os bydd yr eiddo wedi ei brydlesu i drydydd parti.

10. Y Gymraeg

- 10.1 Bydd rhaid esbonio sut mae eich prosiect/menter yn darparu cyfleoedd i hyrwyddo'r iaith Gymraeg.
- 10.2 Fydd ceisiadau yn Gymraeg ddim yn cael eu trin yn llai ffafriol na cheisiadau yn Saesneg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

11. Newid yn yr Hinsawdd / Lleihau Carbon

- 11.1 Mae strategaeth "[Hinsawdd Ystyriol](#)" Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cwmpasu'r ymrwymiad i wneud Rhondda Cynon Taf yn niwtral o ran carbon erbyn 2030. Bydd rhaid esbonio'r mesurau rydych chi'n eu rhoi ar waith i leihau eich allyriadau carbon.

12. Gofynion a disgwyliadau statudol

- 12.1. Dylai ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o unrhyw ganiatad sydd eu hangen megis
- Caniatâd cynllunio / newid defnydd
 - Rheoliadau adeiladu
 - SAB/SuDs
 - Arolygon ecolegol
 - Caniatâd adeilad rhestredig

Yr ymgeiswyr sy'n gyfrifol am geisio'r caniatâd priodol sydd ei angen er mwyn cyflawni'r prosiect ac am sicrhau bod yr holl waith yn cydymffurfio.

- 12.2. Bydd disgwyl i ymgeiswyr beidio â bod mewn ôl-ddyled o ran taliadau neu mewn anghydfod â'r Cyngor adeg cymeradwyo'r grant ac adeg talu'r prosiect.

- 12.3. Bydd angen i'r holl waith gydymffurfio â'r arweiniad sydd yn y llythyr amserlen a Chanllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor.
- 12.4. Bydd eiddo neu adeiladau rhestredig sydd mewn Ardal Gadwraeth yn destun rhagor o amodau yn unol â chynghorion y Cyngor.
- 12.5. Bydd raid i'r ymgeisydd sicrhau bod ei fusnes a'i eiddo yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol o ran iechyd yr amgylchedd, safonau masnach a diogelu defnyddwyr.
- 12.6. Rhaid cwblhau unrhyw gais cynllunio 'newid defnydd' cyn dechrau'r broses gais am gyllid grant.
- 12.7. Ni ddylai'r ymgeisydd ymgymryd ag unrhyw weithgarwch a allai, yn ein barn ni, ddwyn anfri ar y Cyngor.

I gael rhagor o wybodaeth am ganiatâd, cliciwch ar y dolenni isod.

[Cynllunio – Cyflwyno cais Rheoli Adeiladu Adeiladau Rhestredig](#) neu gysylltu â'r Gwasanaethau Cynllunio ☎ 01443 494719 neu ✉ GwasanaethauCynllunio@rctcbc.gov.uk

13. Proses penderfynu

- 13.1. Byddwn ni'n dod i benderfyniad ar geisiadau yn seiliedig ar yr wybodaeth rydych chi wedi'i darparu yn y ffurflen gais, tystiolaeth gysylltiedig â gwiriadau gwybodaeth a gaiff eu cynnal drwy ffynonellau eraill. Bydd modd gwneud cais am ragor o wybodaeth i gefnogi eich cais.
- 13.2. Os yw unrhyw wybodaeth yn anghyflawn neu'n anghywir neu os yw'r dystiolaeth rydych chi'n ei darparu yn annigonol, fydd y cais ddim yn cael ei brosesu a bydd yn cael ei wrthod.

14. Grant a Gymeradwywyd

- 14.1. Os ydych chi'n dymuno derbyn y grant bydd angen i chi lofnodi a dychwelyd y telerau ac amodau, ac yna bydd modd i chi ddechrau ar eich prosiect. Rhaid i chi beidio â dechrau eich prosiect/tynnu unrhyw wariant nes eich bod chi wedi derbyn y cynnig ffurfiol.
- 14.2. Bydd llythyr o hysbysiad yn cael ei gyflwyno i ymgeiswyr aflwyddiannus.

15. Yswiriant

- 15.1. Am gyfnod o bum mlynedd ar ôl dyddiad dyfarnu'r grant, bydd raid i'r ymgeisydd fod ag yswiriant cynhwysfawr ar gyfer yr eiddo gyda chwmni yswiriant dibynadwy a bydd raid rhoi tystiolaeth o yswiriant o'r fath i'r Cyngor, yn ôl y gofyn.

16. Talu grantiau

- 16.1. Fydd taliad terfynol y grant ddim yn cael ei dalu hyd nes y bydd yr holl waith wedi cael ei gwblhau i foddhad y Cyngor ac yn amodol ar y canlynol:
 - I. Cyflwyno'r anfoneb wreiddiol / anfonebau gwreiddiol a'r ffurflen hawlio grant.
 - II. Cyflwyno cyfriflen banc sy'n dangos tystiolaeth o dalu'r anfoneb/anfonebau.
 - III. Gwiriad refeniw boddhaol (cadarnhau nad yw'r ymgeisydd mewn ôl-ddyled i'r Cyngor).
 - IV. Cadarnhau cydymffurfiaeth â phob caniatâd statudol angenrheidiol sy'n ymwneud ag iechyd yr amgylchedd a/neu ddiogelu'r cyhoedd (os yw'n berthnasol).
 - V. Cadarnhau cydymffurfiaeth â phob caniatâd statudol gofynnol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain) *caniatâd cynllunio, SAB/SUDS, rheoliadau adeiladu, newid defnydd neu ganiatâd adeiladau rhestredig.*

- VI. Cadarnhad gan Syrfëwr Meintiau annibynnol (wedi ei benodi gan y Cyngor) fod y gwaith wedi cael ei gyflawni yn foddhaol ac am gost deg a rhesymol. Bydd y taliad Grant Terfynol yn seiliedig ar gost deg a rhesymol fel sydd wedi'i hasesu gan Syrfëwr Meintiau annibynnol.
- VII. Os bydd y Syrfëwr Meintiau annibynnol o'r farn bod y gwaith yn annerbyniol, bydd rhaid i'r ymgeisydd unioni'r gwaith, ar ei gost ei hun. Mae'n bosibl bydd raid i'r ymgeisydd dalu am ailasesu'r gwaith gan Syrfëwr Meintiau hefyd. Os na chaiff y gwaith ei unioni i safon foddhaol, mae'n bosibl y caiff y gwaith ei unioni gan y Cyngor a bydd yn atal rhan o'r Grant, neu'r cyfan ohono.
- VIII. Darparu Tystysgrifau Interim/Terfynol.
- IX. Mae pridiant cyfreithiol wedi cael ei gofrestru yn erbyn yr eiddo yn y Gofrestrfa Tir.

16.2. Bydd taliadau interim yn cael eu hystyried yn ôl disgrisiwn y Cyngor.

16.3. Fydd anfonebau sy'n cael eu talu trwy gerdyn credyd/hurbrynu/cytundebau credyd estynedig / prydlesi cyllid/gwrth-anfonebau a phryniannau arian parod **ddim** yn cael eu hystyried ar gyfer cyllid grant; Rhaid i daliadau fod ar ffurf Taliadau System Glirio Awtomataidd y Banciau (BACS), taliadau cyflymach, system glirio ar gyfer taliadau awtomataidd (CHAPS) neu siec.

17. Cyhoeddusrwydd

17.1. Yn ystod y cyfnod adeiladu, bydd raid i'r prosiect osod arwydd ar y safle sy'n rhoi cydnabyddiaeth i'r ffynonellau cyllid.

17.2. Mae'r Cyngor a Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i roi cyhoeddusrwydd i unrhyw brosiect sy'n cael cymorth.

18. Amodau trosglwyddo/ad-dalu'r grant

18.1 **Bydd y sawl sy'n derbyn grant o hyd at £49,999 yn cael cyfyngiad wedi'i gofrestru** o blaid y Cyngor yn erbyn yr eiddo/ystad gofrestredig sy'n derbyn grant. Rhaid i'r cyfyngiad aros yn gofrestredig yn erbyn yr eiddo am gyfnod o 5 mlynedd o ddyddiad taliad terfynol y rhan honno o'r cyllid.

Rhaid i'r cyfyngiad sydd wedi'i gofnodi fod yn y termau canlynol neu unrhyw dermau tebyg sy'n ofynnol gan y Gofrestrfa Tir:-

Nid yw unrhyw warediad o'r ystâd gofrestredig gan berchennog yr ystâd gofrestredig, na chan berchennog unrhyw arwystl cofrestredig, nad yw'n arwystl a gofrestrwyd cyn cofnodi'r cyfyngiad hwn, i'w gofrestru heb ganiatâd ysgrifenedig wedi'i lofnodi gan Fwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Cyngor, Y Pafiliynau Cwm Clydach Tonypandy CF40 2XX neu eu Trawsgludwr.

18.2 **Bydd y sawl sydd wedi derbyn £50,000 neu ragor yn cael pridiant cyfreithiol (ynghyd â chyfyngiad) wedi'i gofrestru** o blaid y Cyngor yn erbyn eiddo/ystad gofrestredig sy'n derbyn grant. Rhaid i'r pridiant cyfreithiol a'r cyfyngiad aros yn gofrestredig yn erbyn yr eiddo am gyfnod o 5 mlynedd o ddyddiad taliad terfynol y rhan honno o'r cyllid.

Bydd y Pridiant/Cyfyngiad Cyfreithiol wedi'i atodi i'r llythyr yma er mwyn atal adeilad rhag cael ei ddymchwel heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor.

- 18.3. Os oes gan deitl/ystad yr Eiddo unrhyw gyhuddiadau neu gyfyngiadau presennol wedi'u cofnodi yn ei erbyn, yna mae'n ofynnol i'r Ymgeisydd gynorthwyo'r Cyngor, fel y mae ei angen, er mwyn cytuno a chwblhau unrhyw weithred blaenoriaeth a all fod angen ymrwymo iddi gydag unrhyw barti arall.
- 18.4. Bydd yr ymgeisydd yn rhoi gwybod i'r Cyngor ymlaen llaw o'i fwriad i adael yr adeilad / trosglwyddo neu gofrestru pridiant yn erbyn yr adeilad (neu ran ohono) mae'r grant ar ei gyfer o fewn pum mlynedd o ddyddiad talu'r grant. Yn yr achos yma, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i adfachu lefel lawn yr arian grant a gafodd ei roi. Os yw'r adeilad yn derbyn caniatâd cynllunio i newid ei ddefnydd cyn ei waredu, yna bydd modd hawlio hyd at 100% o'r grant.
- 18.5. Os bydd prosiect yn derbyn cymorth grant sy'n golygu y bydd llawr gwag yn cael ei ddefnyddio unwaith eto ac mae'r llawr yn cael ei ddefnyddio am unrhyw beth heblaw am y defnydd terfynol y cytunwyd arno yn flaenorol, yna bydd hyd at 100% o'r Grant yn cael ei adennill. Bydd hyn yn berthnasol am bum mlynedd ar ôl y taliad grant terfynol.

19. Monitro

- 19.1 Bydd Swyddogion y Cyngor yn cael mynediad llawn i'r eiddo er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd y grant a chydymffurfiaeth â'i delerau ac amodau. Bydd rhywun yn cysylltu â'r ymgeisydd maes o law i drefnu ymweliad monitro. Bydd cynrychiolwyr y Cyngor yn ymweld â'r prosiect sy'n derbyn cymorth grant, i fonitro cynnydd y gwaith. Ar ôl hynny, bydd yr ymweliadau hyn yn cael eu trefnu bob chwe mis hyd nes y bydd yr holl amodau a deilliannau wedi cael eu cyrraedd a'u dangos.

20. Telerau ac Amodau

- 20.1 Bydd copi o'r telerau ac amodau ar gyfer y Grant yn cael ei ddarparu gyda'r cynnig grant ffurfiol.

21. Cyflwyno ceisiadau

- 21.3. Anfonwch eich cais i'r cyfeiriad yma:-
adfywio@rctcbc.gov.u

